# Canllawiau ar sicrwydd oedran effeithiol iawn

I wasanaethau Rhan 3

Cyhoeddwyd 16 Ionawr 2025

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ........................................................................................................................ 3

# 1. Trosolwg

### Beth sy’n cael sylw yn y canllawiau hyn

Dyma ein canllawiau i helpu darparwyr gwasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy’n cael eu rheoleiddio (“gwasanaethau Rhan 3”) i roi sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau rheoleiddiol o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 (“y Ddeddf”).

Mae’r canllawiau hyn yn berthnasol at ddibenion:

- cam 1 yr asesiad o fynediad plant, fel yr eglurir yn y Canllawiau Asesiadau Mynediad Plant; a
- deall sut dylid gweithredu sicrwydd oedran effeithiol iawn lle bo hynny’n berthnasol i’r mesurau a argymhellir yng Nghodau Ymarfer Amddiffyn Plant Ofcom.

Mae’r canllawiau hyn yn cynnwys:

- trosolwg o’n hargymhellion i weithredu sicrwydd oedran effeithiol iawn fel y nodir yn y Codau drafft; a
- manylion technegol ychwanegol ac enghreifftiau i ddarparu eglurder ac i helpu darparwyr gwasanaethau i gydymffurfio â’r mesurau a argymhellir.

Mae ein dull gweithredu yng nghyswllt sicrwydd oedran effeithiol iawn yn cyd-fynd, lle bo hynny’n briodol, â’r dull gweithredu yn ein Canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau sy’n cyhoeddi cynnwys pornograffig o dan Ran 5 o’r Ddeddf. Diben hyn yw sicrhau bod darparwyr gwasanaethau sydd o fewn cwmpas Rhan 5 a/neu Ran 3 yn deall yn glir ac yn gyson sut mae rhoi sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith i atal plant rhag dod ar draws cynnwys niweidiol.